# Daniel Powell Williams, ‘Pastor Dan’, 1882–1947
## Sefydlydd yr Eglwys Apostolaidd

Yr Eglwys Apostolaidd yw’r unig gorff o eglwysi Cristnogol a gychwynnodd yng Nghymru ac a ymledodd trwy’r byd. Digwyddodd hynny yn sgil Diwygiad 1904–05 a oedd yn gynhenid Gymreig ei darddiad. Ni sylweddolwn fel Cymry pa mor ddylanwadol fu effeithiau’r diwygiad hwn, ac un o’i ffrwythau oedd yr Eglwys Apostolaidd a sefydlwyd gan Pastor Dan.

Ganwyd ef yn Nyffryn Aman, ar 5 Mai 1882 mewn tyddyn o’r enw Garn-foel ger Pen-y-groes, Caerfyrddin, yn un o ddeuddeg o blant William ac Esther Williams. Aeth ei dad yn ddall pan oedd Daniel yn ddeg oed a bu rhaid iddo adael yr ysgol er mwyn cynorthwyo i gadw’r blaidd o’r drws. Ychydig o addysg a gafodd felly, ac o ganlyniad bu’r eglwys Annibynnol ym Mhen-y-groes, lle yr addolai’r teulu yn ddylanwad mawr arno.

Ym 1904–05 daeth y diwygiad i Ddyffryn Aman ac effeithiodd yn fawr ar yr ardal ac ar deulu Daniel Powell. Dechreuodd ef a diacon o eglwys y Bedyddwyr gynnal cyfarfodydd diwygiadol yng nghapel Calfaria. Ar ddydd Nadolig 1904 aeth i Gasllwchwr, ac yno profodd dröedigaeth a chael arddodiad dwylo gan y diwygiwr ei hun, Evan Roberts. Teimlai alwad gynyddol i fynd i bregethu a thraddododd ei bregeth gyntaf ar 1 Chwefror 1906. Am gyfnod dilynodd drefn yr Annibynwyr o godi pregethwyr a derbyniodd alwad gan ddwy eglwys, ond fe’i gwrthododd oherwydd ni theimlai’n fodlon. Tra oedd ar wyliau gyda chriw o Gristnogion yn Aberaeron ym 1909 fe gafodd yr hyn a elwid yn “fedydd yr Ysbryd” ar fryn uwchlaw’r môr a dechreuodd lefaru â thafodau. Wedi pendroni, gadawodd yr Annibynwyr ac ymuno â chwmni o Gristnogion oedd o’r un argyhoeddiad ag ef ei hun ac a addolai mewn neuadd yn y pentref. Aent yn gyson i gynadleddau pentecostaidd ac yn un o’r rhain yn Abertawe y dechreuodd D.P. Williams bregethu yn Saesneg.

Yn y cyfarfodydd hyn datblygodd eu syniadau am fedydd

yr Ysbryd, ffrwythau'r Ysbryd, llefaru â thafodau, iachâu a'r angen am apostolion a phroffwydi yn yr eglwys. Oherwydd y pwyslais ar apostolion ymwahanodd y gynulleidfa hon a bu coleddwyr apostoliaeth yn addoli mewn gwahannol fannau. Yn y diwedd codasant gwt sinc a'i alw'n Babell y Cyfarfod.

Datblygodd Daniel Williams fel arweinydd ac ymunodd ei frawd William Jones ag ef fel proffwyd. Cysylltodd yr eglwys â'r Faith Apostolic Church yn Winton, Bournemouth, ac yn raddol fe dyfodd y mudiad. Agorwyd swyddfa fechan yn Llwynhendy ac ymhen tipyn symudwyd i Ben-y-groes. Ymddangosodd rhifyn cyntaf cylchgrawn yr Eglwys Apostolaidd ym 1916 yn dwyn y teitl *Cyfoeth y gras: The Riches of Grace*. Cylchgrawn dwyieithog oedd hwn ar y cychwyn ond yn raddol dros y blynyddoedd collodd y Gymraeg ei lle. Yn yr un flwyddyn lluniwyd cyfansoddiad swyddogol yr eglwys ac o dipyn i beth cysylltwyd cynulleidfa wrth gynulleidfa ar hyd a lled Prydain cyn i'r mudiad ymestyn ei adenydd yn fyd-eang.

Ym 1937 unwyd yr holl ganghennau â'r pencadlys ym Mhen-y-groes, y ganolfan genhadol yn Bradford a'r ganolfan gyllidol yn Glasgow. Llywydd yr eglwys a chadeirydd Cyngor yr Apostolion a'r Proffwydi oedd Daniel Powell Williams. O 1917 ymlaen cynhaliwyd confensiwn blynyddol ym Mhen-y-groes ym mis Awst lle y tyrrai cynadleddwyr o bedwar ban y byd, ac ym 1933 agorwyd y Deml Apostolaidd sy'n dal 5,000 o bobl. Agorwyd Ysgol Feiblaidd yno hefyd ym 1934 ar gyfer hyfforddi gweithwyr. Bu'n Pastor Dan yn briod ddwywaith yn gyntaf ag Elizabeth Harries a chael saith o blant ac yna â Mabel Thomas. Bu farw 13 Chwefror 1947.